Fforest ac yn y caeau gyferbyn perllynol i Pant Cefn. Mae eraill yn y Fro, cawn sôn amdanynt wrth drafod caeau a'u ffermydd.

Bu cryn dipyn o weithio am fwyn yn y cylch rhyw ganrif a hanner neu fwy yn ôl o bosib. Bu cloddio am gopr i'r Gogledd ac i'r Dwyrain i Ddyffryn Aled yn weddol agos at y tŷ.

Dyma ganrif cau'r Comin (19fed ganrif) ac mae'r gair 'encroachment' yn dod ar restr tir y fferm. Rhoddaf enw presennol y fferm, a'r un a ddefnyddir gan Swyddogion y Degwm mewn cromfachau. Diddorol yw enw Cae Ffrainc (Cae Coed), Chirk Castle lands (Fferwd), Stâd Middleton mae'n debyg, Cae Clover mewn ambell le. Tebyg fod hau clofer yn arfer newydd. Ffrith y trenau (Fforest). Ceir llawer enw personol. Roedd cyfartaledd y ffermydd yn rhyw 55 acer, ac yn talu £6.50 o ddegwm. Mae'r gair Croft, 'Rofft, Groffydd yn dod i fyny yn aml. Mae'r 'crofter' yn dyddynnwr yng Ngogledd yr Alban.

## Manylion ffermydd, a chaeau

**Acre Isaf** ***(Accrau)***

Coed Mawr
Cae Dderwen
Cae Gwyn Uchaf
Cae Gwyn Isaf
Cae Main
Weirglodd Fawr
Gefnen
Garth Bach
Garth Ganol
Garth Bellaf
Cae Llwyd
Weirglodd Bach

Nant y Grawen yn rhedeg i'r Hyrdd ger Coed Mawr.

**Acre Uchaf** ***(Accrau)***

Llety Canol
Llety Isaf
Wern Isaf
Wern Uchaf
Weirglodd
Rofft
Llety poethion
Cae'r Efail
Cae Pistyll *(Acer Fair)*
Cae Cymdal Uchaf
Cae Cymdal Isaf

Adeiladwyd Capel Glanrhyd, aeth Llety poethion yn Cae Capel.

**Bwfi**

Bwfi Isaf
Bwfi pellaf
Cae'r felin
Cae'r Bryn
Cae'r popty
Cae'r Hendy

**Pentre Beidiog** ***(Beidiog)***

Maes yr Hwrdd
Rofft
Cae Gwyn
Cae Maen
Ffrith faen
Pen y Cae Pant
Ffrith Newydd
Rofft Cefn tŷ
Rofft Galed
Y Wern
Cae Pant
Bwlch Gwyn
Ffrith y ffynnon
Ffrith ŷd

**Bryn Adar** ***(Bryn Cadarn)***

Credaf mai Bryn Adar yw'r uchod o edrych ar rai enwau caeau. Dywed rhai iddynt glywed y lle yn cael ei alw'n Bryn 'adarn'. Teg yw casglu fod Bryn Adar wedi dod yn enw newydd.